**EOC-03-03 (cof)**

**COFNODION**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:**20 Mawrth 2003

**Amser:**9.15 am

**Lleoliad:**Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| *Aelodau* | Ann Jones (Cadeirydd) | Dyffryn Clwyd |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Huw Lewis | Merthyr Tudful & Rhymni |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| *Swyddogion* | Peter Gregory | Cyfarwyddwr Personél |
| | Howell Rees | Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus |
| *Gwahoddedigion Sefydlog* | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) |
| | Sue Dye | Comisiwn Cyfle Cyfartal (CCC) |
| | Derek Walker | Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol |
| *Gwahoddedigion* | Naomi Alleyne | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| | Anna Freeman | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| | Ruth Marks | Chwarae Teg |
| | Yvonne Griffith-Jones | Chwarae Teg |
| | Bob Mattingly | 'Rights into Action' - Cyngres Ryngwladol i Bobl Ifanc Anabl |
| | Richard Etherington | Grwp 'Rights into Action' |
| | Lee Ellery | Grwp 'Rights into Action' |
| | Rebecca Mason | Grwp 'Rights into Action' |
| | Felicity Williams | Cyngres Undebau Llafur (TUC) |
| *Ysgrifenyddiaeth* | Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |

Lara Date Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**9.15 am**

**Eitem 1**

**Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Peter Rogers AC, a'r gwahoddedigion sefydlog Kate Bennett o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Dhamendra Kanani o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Roedd Sue Dye yn cymryd lle Kate Bennett.

**9.15 - 9.20 am**

**Eitem 2**
**Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EOC 02-03(p1)**

1. Nid oedd gan y Gweinidog unrhyw beth i'w ychwanegu at ei adroddiad ysgrifenedig.
2. Roedd y Comisiwn Cyfle Cyfartal a phartneriaid eraill wedi gwneud cais i'r Gweinidog am gyllid ar gyfer cynhadledd 'Dyfodol Cyfartal: grymuso dinasyddion ifanc Cymru', ac wedi gofyn am wybodaeth ar hynt y cais hwnnw.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Helen Mary Jones AC i egluro sefyllfa'r cais ar gyfer cynhadledd 'Dyfodol Cyfartal'.

**9.20 – 9.46**

**Eitem 3**
**Cyflwyniad gan Chwarae Teg**
**Papur: EOC-03-03(p2) - Ymchwil**

1. Aeth Ruth Marks, y prif weithredwr, ac Yvonne Griffiths-Jones, rheolwr rhanbarthol dros dro Gogledd Cymru, ati i hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniadau'r ymchwil i rôl menywod yng ngweithlu Cymru, ac am astudiaeth arfaethedig o'r rhesymau economaidd a chymdeithasol dros ddarparu gofal. Dyma brif bwyntiau eu cyflwyniad a'r pwyntiau a godwyd wrth drafod:
2. Nod Chwarae Teg yw bod y brif asiantaeth sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd

menywod ledled Cymru. Mae pedair prif thema yn ei gynllun busnes: cyflogaeth, menter, addysg a hyfforddiant a pholisi - gan weithio trwy bartneriaethau a rhwydweithiau ledled Cymru.

3. Dengys ei ymchwil bod menywod yn dal i deimlo nad ydynt yn cael eu trin yn deg yn y gweithle nac yn cyrraedd eu llawn botensial. Bydd hyn yn cael effaith ar economi Cymru a bydd ganddo oblygiadau i bolisi datblygu economaidd y Cynulliad.
4. Soniwyd am faterion pwysig megis yr hyn sy'n ysgogi menywod i weithio, pwysigrwydd cyfathrebu, ac annog menywod i weithio trwy gyfrwng hyfforddiant a phartneriaethau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
5. Mae menywod yn wynebu rhwystrau, yn eu plith y mae cyflogau (ystyriwyd bod ymgyrch Cyflogau Cyfartal yn bwysig), cael eu stereoteipio ar sail eu rhyw, ceisio cael addysg a hyfforddiant, a materion yn ymwneud â iechyd a phobl dibynnol. Mae gofal yn bwysig boed yn ofal plant neu'n ofal ar gyfer yr henoed a phobl ddibynnol.
6. Comisiynwyd ymchwil i ofal gan y Gweinidogion dros Ddatblygu Economaidd, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac Addysg a Dysgu Gydol Oes, a fydd yn asesu'r gofal a ddarperir ar draws Cymru, ac yn archwilio ffyrdd dyfeisgar i chwalu'r rhwystrau rhag manteisio ar y gofal presennol. Bydd yn ystyried sut i ryddhau gofalwyr i'r farchnad lafur yng Nghymru a'u cadw yn y gweithle, a sut i gynyddu'r economi gymdeithasol. Bydd hefyd yn ystyried gofal plant a gofal i oedolion, henoed a phlant sydd ag anghenion arbennig. Caiff nifer o ddulliau eu defnyddio gan gynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau â darparwyr gofal, cyflogwyr, y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal a'r rhai sydd wedi gadael y sector gofal.
7. Plant yng Nghymru, Cymdeithas Gofalwyr Cymru a Chyngor Gofalwyr Cymru yw'r prif asiantaethau a fydd yn cydweithio ac yn ymgynghori â nhw ar yr ymchwil.
8. Cydnabuwyd pwysigrwydd gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd hyn ei gynnwys yn yr ymchwil er mwyn canfod yr hyn sydd ar gael, a yw'n hawdd ei gael a sut y mae'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol mewn ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith. Bwriedir canfod a yw'r gofal a ddarperir yn ddigonol trwy fapio'r ddarpariaeth bresennol a gwneud argymhellion ar gyfer cynlluniau neywdd i ddiwallu anghenion. Bydd hefyd yn ystyried gwybodaeth ddemograffig ac yn rhagweld tueddiadau yn y dyfodol o ran gofal i'r henoed er enghraifft, sy'n faes y mae menywod yn bennaf gyfrifol amdano, a'i gydbwyso ag anghenion gofal plant.
9. Roedd gofal plant wedi gwella'n sylweddol yn y deng mlynedd ddiwethaf o ran nifer y lleoedd sydd ar gael. Serch hynny, roedd yn bwysig hefyd gwerthuso pa mor fforddiadwy a hygyrch yw'r gofal hwnnw i fenywod.
10. Roedd rhaglenni ar waith eisoes ar gyfer menywod a rhieni sengl sy'n gweithio, sy'n tanlinellu ei bod yn bwysig ymdrin â'r cydbwysedd rhwng gwaith ac anghenion gofal menywod sy'n gweithio.
11. Caiff adroddiad terfynol yr ymchwil ei gyflwyno i'r Cynulliad ddiwedd mis Mawrth.

Wedyn, eir ati i ddatblygu cynlluniau arloesol i chwalu'r rhwystrau rhag y gofal, ac i rannu'r wybodaeth a gasglwyd.

12. Bydd gwaith Chwarae Teg yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil bresennol, yr ymchwil pellach maent yn gobeithio'i gwneud a'r gweithgareddau peilot. Roedd trefniadau gweithio hyblyg a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd yn feysydd pwysig iawn, a byddant yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngres Undebau Llafur Cymru, ACAS ac eraill ar hyn. Roedd cyllidebu sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn faes lle gellid cydweithio â Llywodraeth Iwerddon ac efallai'r UE. Nododd y Cadeirydd bod hwn yn faes i'w ystyried ym mlaenraglen waith y Pwyllgor. Roedd rôl menywod mewn bywyd cyhoeddus ac fel penderfynwyr, yn faes lle gall Chwarae Teg roi cyngor i sefydliadau sy'n bartneriaid iddo.
13. Derbyniodd Chwarae Teg grant craidd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bu'n gweithio ar draws amryw feysydd polisi megis datblygu economaidd ac iechyd, a bu'n rhan o Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Hefyd, cyflwynodd gais ar gyfer contractau i Awdurdod Datblygu Cymru er enghraifft, ac fe wnaeth gais am gyllid i'r UE. Bellach mae'n elusen, ac mae'n gobeithio cydweithio â'r sector corfforaethol yn y dyfodol h.y. banciau a chwmnïau cyfleustodau er enghraifft.
14. Er mwyn gwerthuso'i waith, roedd cynllun busnes Chwarae Teg yn cynnwys targedau meintiol ac ansoddol. Roedd y rhaglen ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, sy'n deillio o'i waith â'r UE, yn cyflawni ei holl dargedau. Pennwyd targedau meintiol eraill hefyd gan gynnwys rhai'n ymwneud â nifer y sefydliadau yr ymwelwyd â hwy ac ymchwil benodol a wnaed gan y sefydliad.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Bydd y Pwyllgor yn cael adroddiadau pellach oddi wrth Chwarae Teg yn flynyddol.

**<u>9.46 – 10.18</u>**

**Eitem 4**

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol, a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod**

**Papur: EOC 03-03(p3) – Cydbwysedd rhwng y rhywiau**

1. Bu Anna Freeman, pennaeth cyflogaeth, a Naomi Alleyne, arweinydd y tîm Cydraddoldebau, yn sôn wrth y Pwyllgor am gydbwysedd rhwng y rhywiau mewn awdurdodau lleol, a rhoesant adborth ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dyma brif bwyntiau eu cyflwyniad a'r pwyntiau a godwyd wrth drafod:

2. Gofynnwyd i awdurdodau lleol am wybodaeth am gydbwysedd rhwng y rhywiau a sut yr oeddent yn ymdrin â thangynrychiolaeth. Roedd y canlyniadau'n giplun o'r sefyllfa bresennol. Serch hynny, ni chafwyd gwybodaeth gan bob awdurdod oherwydd prinder amser ac am fod rhai ohonynt wrthi'n diweddaru eu systemau monitro. Roedd 25 y cant o uwch-reolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn fenywod. Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth gan y Gymdeithas am nad oedd modd darparu dadansoddiad manylach am bob awdurdod.
3. Bu'r awdurdodau lleol yn ymdrin ag anghydraddoldeb y rhywiau, ond nid oeddent yn gwneud digon yn ôl y Gymdeithas.
4. Roedd y Gymdeithas yn gobeithio y byddai strwythur cabinet newydd o fewn llywodraeth leol yn arwain at fwy o fenywod mewn swyddi gwneud penderfyniadau ee. aelodau o bwyllgorau craffu.
5. Ar hyn o bryd, roedd llawer o wahanu a thangynrychioli ar lefelau uwch. Roedd hyn yn peri pryder i'r Pwyllgor, am fod llywodraeth leol yn gyflogwr pwysig yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bwysig canolbwyntio ar gydbwysedd rhywiol aelodau cynghorau, am ei bod yn anodd rhagweld cydbwysedd yn y gweithlu'n gyffredinol os yw 80 y cant o siambrau cynghorau yn ddynion. Penderfynwyd bod dull gefeillio yn un ffordd o annog newid, ac roedd y Pwyllgor am wybod a oedd yn cael ei ddefnyddio. Roedd hefyd am wybod a fyddai cynghorau llai ond cyflogedig yn denu mwy o fenywod i lywodraeth leol. Dywedodd y cyflwynwyr nad oeddent yn gyfrifol am aelodau etholedig, ond bod pecynnau gwybodaeth yn cael eu cynhyrchu er mwyn annog cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau ymysg aelodau etholedig.
6. Roedd angen cyflwyno diwylliant gwaith mwy hyblyg, a chael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddu.
7. Roedd cyflogau cyfartal yn bwysig a bu'r seminar 'Close the Pay Gap' ar gyfer llywodraeth leol yn ddefnyddiol iawn am iddi ddangos i'r awdurdodau lleol bod angen mynd i'r afael ag ef. Er y dylai cyflogau fod yn gyfartal eisoes, dywedodd y Gymdeithas bod y gost uchel o wneud hyn yn broblem i'r awdurdodau lleol am fod pwysau arnynt i gadw at eu cyllidebau. Roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r posibilrwydd o achosion cyfreithiol o ganlyniad i gyflogau anghyfartal, Roedd goblygiadau hefyd o ran pwer prynu a threfniadau pensiwn menywod. Croesawodd y Gymdeithas ymchwil Chwarae Teg, a dywedodd ei bod yn gobeithio cydweithio ag ef i weithredu ei brosiectau peilot.
8. Aethpwyd ati eisoes i werthuso swyddi, ac roedd y gwaith hwn hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gyflogau cyfartal. Bydd goblygiadau ariannol gweithredu'r canlyniadau yn cael eu trafod â Llywodraeth Cynulliad Cymru.
9. Dywedodd y Gymdeithas bod rhai awdurdodau lleol yn ystyried cynnal Archwiliadau Cyflogau Cyfartal, ac roedd Comisiwn Cyflogau'n cyfarfod i drafod amryw faterion yn ymwneud â chyflogau a gwobrwyo. Roedd angen ailgychwyn y cytundeb statws sengl. Trefniant dros dro yw'r trefniant presennol, ond fe'i ystyrir yn drefniant gofynnol. Dywedodd bod rhai undebau llafur yn anhyblyg wrth werthuso swyddi a'i fod yn ymarfer sy'n galw am lawer o adnoddau.

10. Teimlodd yr Aelodau'n gryf y dylai pob awdurdod lleol gydsynio adnoddau i gynnal Archwiliadau Cyflogau Cyfartal - mae'n benderfyniad gwleidyddol i beidio â gwneud hyn ac yn un amhriodol gan fod yr arian ar gael.
11. Bu digrifwraig Fwslemaidd yn cymryd rhan yn un o ddigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Roedd yn sôn yn ei pherfformiad am y rhwystrau yr oedd wedi'u hwynebu a'u chwalu er mwyn cyflawni'i photensial. Cynhaliwyd gweithdai er mwyn helpu'r menywod i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer dyrchafiad, gan gynnwys oriau gwaith hyblyg, cyfle i rannu swyddi, herio'r arfer o weithio oriau hir, hyfforddiant pellach ar gyfer aelodau etholedig a staff, a chynrychiolaeth well ar gyfer staff ar bob lefel. Pennwyd ffyrdd o ymdrin â thangynrychiolaeth yn eu sefydliadau ee. trwy hyfforddiant a chyfle i ddatblygu eu gyrfaoedd. Roedd angen newid yr agweddau sefydliadol/diwylliannol presennol hefyd. Bydd 'Maniffesto ar gyfer Newid' a luniwyd yn yr achlysur yn cael ei hyrwyddo a'i ddosbarthu i arweinwyr, aelodau ac uwch-swyddogion.
12. Mae gofynion deddfwriaethol newydd wedi ehangu'r hyn sydd angen ymdrin ag ef, ac mae'r Safon Cydraddoldeb newydd a ddatblygwyd ar gyfer llywodraeth leol yn mynd ati mewn ffordd generig i wneud cydraddoldeb yn thema ganolog yn holl waith y sector.
13. Yn y dyfodol, bydd y Gymdeithas yn cydweithio â Chwarae Teg i ledaenu eu cynlluniau peilot ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, helpu awdurdodau i weithredu'r Safon Cydraddoldeb, ac unrhyw waith arall sy'n ymdrin â chyflogau cyfartal.
14. Mae'r Gymdeithas yn cydweithio â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal ar gydbwysedd rhwng y rhywiau, ac mae'r Comisiwn wrthi'n trafod â'r Gymdeithas sut i godi proffil cyraddoldeb y rhywiau yn y DU.
15. Roedd Cyd-gyngor Cymru yn frwd o blaid ymdrin â chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a bydd grwp Gorchwyl a Gorffen yn bwrw ati â'r gwaith hwn gyda'r Gymdeithas.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Bydd y Gymdeithas yn rhoi dadansoddiad llawn i'r Pwyllgor o'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn awdurdodau lleol yn ôl gradd, a'r cydbwysedd rhwng yr aelodau gan gynnwys aelodau'r pwyllgorau craffu. Os na fyddai modd i'r Gymdeithas gael gafael â'r holl wybodaeth sydd ei hangen, bydd y Pwyllgor newydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau i ofyn amdani.
- Bydd cydbwysedd rhwng y rhywiau o fewn llywodraeth leol yn cael ei gynnwys ym mlaenraglen waith arfaethedig y Pwyllgor newydd, a fydd yn cael ei ystyried eto ymhen 6 mis. Dylai aelod(au) etholedig ddod gyda swyddogion y Gymdeithas pan fydd trafodaeth ar yr eitem honno. Bydd yn cynnwys adroddiad ar hynt y gwaith o weithredu'r Safon Cydraddoldeb, er mwyn cael gweld pa awdurdodau lleol sy'n gwneud gwaith da a sut y maent yn delio â'r haenau gwahanol o gydraddoldeb.
- Bydd y Gymdeithas yn rhoi gwybodaeth fwy manwl am gydraddoldeb y rhywiau o fewn

eu sefydliad.
- Bydd y Gymdeithas yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ee. dulliau gefeillio, i annog cydbwysedd rhwng y rhywiau ymysg aelodau etholedig.

**<u>10.18 –10.35</u>**

**Eitem 5**

**Hynt y gwaith o wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus**
**Papur: EOC 03-03(p4) - Penodiadau Cyhoeddus**

1. Dywedodd Howell Rees wrth y Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i gael mwy o amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus.
2. Nodwyd bod 55 o aseswyr annibynnol newydd wedi'u recriwtio. Derbyniwyd 490 o ymholiadau, ymgeisiodd 318 a rhoddwyd cyfweliad i 120. Mae 50 y cant o'r aseswyr yn fenywod, 18 y cant yn lleiafrifoedd ethnig, mae gan 7.3 y cant anableddau ac mae 22 y cant yn siaradwyr Cymraeg. Cafodd yr aseswyr eu penodi'n ffurfiol gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a chaiff system gylchdroi ei defnyddio i reoli a monitro eu defnydd.
3. Mae hyfforddiant mewn cyfle cyfartal yn rhan o hyfforddiant yr aseswyr newydd. Roedd yr aseswyr oedd ar y sesiwn hyfforddi cyntaf yn falch o'i gael a buont yn trafod sefydlu rhwydwaith i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Disgwylir i safon y sesiwn nesaf o hyfforddiant cyfle cyfartal fod yn uchel iawn gan y bydd o dan ofal yr Athro Theresa Rees.
4. Mae bâsdata yn cael ei ddatblygu er mwyn monitro data ar benodiadau cyhoeddus a chaiff llinell sylfaen ei thynnu yn nhymor yr haf i fesur cynnydd yn y dyfodol.
5. Bu Alun Thomas o'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn gysylltiedig â'r gwaith beichus o recriwtio aseswyr. Nid oedd yr Uned Penodiadau Cyhoeddus wedi sylweddoli gymaint fyddai'r dasg cyn gofyn iddo ef, ac eraill, i'w helpu. Roedd yr Uned yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad.
6. Mae adborth wedi'i gynnig i'r rheini a wrthodwyd ar ôl cyfweliad. Cafwyd dyrnaid o gwynion gan geiswyr oedd yn teimlo eu bod wedi cael cam, ond teimlwyd iddynt gael eu trin yn foddhaol.
7. Nid oes gennym lawer o wybodaeth am gefndir cymdeithasol-economaidd yr aseswyr - credir bod y rhan fwyaf ohonynt mewn gwaith. Gellir cyflwyno dadansoddiad o'r ystadegau i'r Pwyllgor ar ffurf papur i nodi a bydd yn cynnwys y wybodaeth bod ymgeiswyr wedi rhoi eu caniatâd i'w cyhoeddi.
8. Yn sgil mynychu seminar diweddar a drefnwyd gan Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru ar benodiadau cyhoeddus, nodwyd bod darpar ymgeiswyr am help i wella'u sgiliau llenwi ffurflenni ac ateb cwestiynau mewn cyfweliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio am ffyrdd i wneud hyn. Y Western Mail a'r

Daily Post yw'r prif gyfryngau i hysbysebu penodiadau cyhoeddus a chafwyd ymateb da iawn o ddefnyddio'r olaf. Mae'r wefan penodiadau cyhoeddus hefyd yn cael ei defnyddio gan bobl i gael gwybodaeth am benodiadau cyhoeddus.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd y Pwyllgor olynol yn derbyn papur i nodi, a dadansoddiad o'r ystadegau sydd ar gael am yr ymgeiswyr a'r aseswyr a benodwyd.
- Bydd y Pwyllgor olynol yn derbyn adroddiad cyn pen 12 mis a fydd yn cynnwys gwerthusiad o amrywiaeth yr aseswyr fydd yn cael eu defnyddio yn y broses recriwtio.
- Bydd y Pwyllgor olynol yn derbyn adroddiad a fydd yn rhoi darlun o'r sefyllfa o ran amrywiaeth y penodiadau cyhoeddus.

**Cytunodd y pwyllgor i dorri am egwyl rhwng 10.35 a 10.45.**

**10.45 – 11.08**

**Eitem 6**

**Cyflog Cyfartal - adroddiad ar yr ymgyrch a'r strategaeth at y dyfodol**

**Papur: EOC 03-03(p5) - Adroddiad interim yr ymgyrch cyflog cyfartal**

**Papur: EOC 03-03(p6) – Y strategaeth cyflog cyfartal am y flwyddyn sydd i ddod**

1. David Melding AC, Cadeirydd y Cydweithgor ar Gyflogau Cyfartal, gyflwynodd yr eitem. Ymunodd Sue Dye, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, a Felicity Williams o'r TUC, cyd-aelodau o'r gweithgor, ag ef, a diolchodd iddynt am eu gwaith i yrru'r agenda cyflog cyfartal yn ei blaen.
2. Mae'r rhestr o weithgareddau ar y papur cyntaf, a ddefnyddiwyd fel sail ffurfiol i ddatganiad y Gweinidog i'r cyfarfod llawn ddydd Mawrth diwethaf, yn dangos bod gwaith aruthrol wedi'i wneud gyda chyllideb gymharol fach o £70,000. Ymhlith y gweithgareddau oedd seminarau i lywodraeth leol a'r GIG. Mae'r ymgyrch yn cael ei dynwared mewn mannau eraill, mae'r wasg a'r cyfryngau yn rhoi sylw mawr iddi a dylid mynd â hi yn ei blaen.
3. Roedd yr ail bapur yn edrych ar y strategaeth at y dyfodol a'r angen i'r Gweinidog gymeradwyo arian cyllido. Amcangyfrifwyd y byddai angen £75,000 i dalu am waith y flwyddyn i ddod. Fe fydd yn werth pob dimai. Gofynnwyd i'r Gweinidog fynd â'r gwaith yn ei flaen ac argymhellwyd bod y Pwyllgor olynol hefyd yn ysgwyddo'r mater. Mae talu cyflogau cyfartal yn ddyletswydd statudol ond mae'r sectorau preifat a chyhoeddus yn ei hesgeuluso.
4. Dywedodd Sue Dye o'r EOC fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyfeirio at yr

ymgyrch yn y Senedd wythnos ddiwethaf. Roedd yr ymgyrch yn torri tir newydd ac mae'n bwysig nad yw'n colli momentwm. Byddai gwaith yn y dyfodol yn cynnwys annog cyflogwyr i archwilio'r cyflogau a delir ganddynt a thargedu rhai mathau o gyflogwyr fesul sector. Yn ogystal â chlustnodi rhagor o arian o'r gyllideb, roedd yna gais yn y papur am secondiad i'r EOC i fynd â'r gwaith yn ei flaen.

5. Ategodd Felicity Williams o'r TUC yr hyn ddywedodd Sue a dywedodd bod y TUC yn falch o gael bod yn rhan o'r ymgyrch. Mae'r cydweithio trawsbleidiol rhwng aelodau'r Cydweithgor ar Gyflogau Cyfartal, a'u hymrwymiad, wedi bod yn allweddol i'w lwyddiant. Mae llawer eto i'w wneud, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd a bydd yn gofyn i'r TUC barhau â'i ymrwymiad i gydweithio â'i bartneriaid, er enghraifft parhau i annog cyflogwyr i archwilio cyflogau.
6. Cytunodd y Gweinidog fod yr ymgyrch wedi gadael ei hôl a'i fod yn synnu mor bell y mae wedi taflu'i rhwyd, gan gynnwys rhai cyflogwyr mawr. Yr her yw argyhoeddi busnesau llai i beidio â'i weld yn fygythiad o ran costau. Mae 33 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers pasio'r Ddeddf Cyflogau Cyfartal ond mae'r broblem yma o hyd ond yn fwy cudd. Nid yw'n bosibl rhoi ymateb y funud yma i'r argymhellion yn yr adroddiad ond pe bai'r Pwyllgor yn dewis eu mabwysiadu, yna gallai'r Gweinidog newydd adrodd yn ôl i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor olynol.
7. Er nad oes gan y Pwyllgor y grym i orfodi cwmnïau i adolygu cyflogau, gall annog ASPBs yn gryf i'w gynnwys yn eu llythyrau cylch gwaith fel eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gall y Cyfarwyddwr Personel baratoi adroddiad i'r Pwyllgor ar adolygu cyflogau gyda'r ASPBs yn Nhymor yr Haf.
8. Roedd gobaith y byddai llywodraeth leol wedi gwneud mwy i gydymffurfio â'r gyfraith a gwella'r rhagolygon ar gyfer menywod. Awgrymwyd bod WLGA, gan gynnwys cynghorwyr etholedig, yn cael ymaelodi â chydweithgor ar gyflogau cyfartal yn y dyfodol i'w hannog i roi eu hymrwymiad i'r pwnc.
9. Diolchodd y Pwyllgor bawb a fu'n rhan o'r ymgyrch Cyflogau Cyfartal, gan gynnwys swyddogion yr Uned Polisi Cydraddoldeb. Cymeradwyodd yr adroddiad ar strategaeth y dyfodol a'r argymhellion i fynd â'r ymgyrch yn ei blaen tymor nesaf, gan gynnwys y cais am arian o'r gyllideb.

**Pwynt Gweithredu:**

- Gofynnir i'r pwyllgor olynol wahodd y Gweinidog newydd fydd yn gyfrifol am y portffolio Cyflogau Cyfartal i baratoi adroddiad ar yr hyn y dylid ei wneud gyda'r strategaeth at y dyfodol y cytunodd y Pwyllgor hwn arno.
- Bydd y Cyfarwyddwr Personel yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor olynol am ASPBs i annog cynnal adolygiadau cyflogau yn nhymor yr haf.

**<u>11.08 – 11.37</u>**

**Eitem 7**

**Dilyniant i gyflwyniad y Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Deurywiolion (Fforwm LHD)**

**Papur: EOC 03-03(p7) - Dilyniant i gyflwyniad gan y Fforwm LHD**

1. Roedd Peter Gregory yn bresennol i ddweud wrth y Pwyllgor am yr hyn sy'n cael ei wneud gyda'r camau gweithredu y penderfynwyd arnynt yn sgil cyflwyniad y Fforwm LHD yn Hydref 2002. Cyfarfu Llywodraeth y Cynulliad â'r Fforwm i drafod y canllawiau ar gyfer y ddeddf newydd sy'n ymdrin â hunaniaeth a gwahaniaethu rhywiol yn y gwaith, ac i drafod trefniadau'r Fforwm yn y dyfodol. Dywedodd Peter Gregory wrth y Pwyllgor hefyd nad oedd y papur o'u blaenau'n ddarlun llawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Addawodd y byddai'n rhoi fersiwn fanylach i'r Pwyllgor olynol.
2. Nododd y Pwyllgor yr ymrwymiad hwn, ond dywedodd ei fod yn siomedig nad oedd y papur, a oedd yn ddogfen gyhoeddus, yn adlewyrchu beth fyddai Llywodraeth y Cynulliad ei hun yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Fforwm. Gofynnodd y Pwyllgor am ymrwymiad na ddigwyddith hyn eto.
3. Roedd y Fforwm wedi paratoi pecyn adnoddau i gynghorwyr ac athrawon ABCh a byddai'n gofyn i Lywodraeth y Cynulliad am help i'w ddosbarthu. Cafodd y pecyn ei ddangos mewn cynhadledd ddiweddar ond dim ond un awdurdod ddangosodd ddiddordeb ynddo. Mae gan y Fforwm ddiddordeb hefyd mewn cynghori darpar athrawon dan hyfforddiant am hunaniaeth rywiol a rhywioldeb. Bydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn cynnwys ymateb i ddosbarthu'r pecyn adnoddau yn ei adroddiad arfaethedig.
4. Mae troseddau casineb yn broblem anodd ei datrys ac mae llawer yn digwydd nad yw'r heddlu yn dod i wybod amdanynt. Un ffordd o daclo'r broblem yw addysg: mae'n bwysig bod athrawon ABCh ac eraill sy'n gweithio â phobl ifanc yn hybu goddefgarwch. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio gweld mwy yn digwydd yn hyn o beth. Mae rôl partneriaethau diogelwch cymunedol lleol hefyd yn bwysig. Tyfodd y Mardi Gras yng Nghaerdydd o gynllun partneriaeth cymunedol ac mae'n annog pobl i ddweud wrth yr heddlu am droseddau casineb. Gwelwyd hefyd bod ar yr heddlu angen help i allu adnabod a delio â throseddau casineb ar sail rhywioldeb. Anogwyd y Fforwm i barhau i weithio ar strategaethau lleol fel bod profiadau Caerdydd yn cael eu hefelychu mewn rhannau eraill o Gymru.
5. Croesawodd y Fforwm ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu cynlluniau cofrestru partneriaethau sifil. Pwysleisiodd y Gweinidog mor bwysig yw hi bod y cynlluniau hyn yn rhoi'r un statws cyfreithiol ag y mae priodasau sifil yn eu rhoi i barau heterorywiol. Cydnabu'r Fforwm mai dyna yw eu hamcan yn y pen draw, ond dywedon nhw y gwnai ffurf llai ffurfiol y tro yn y cyfamser. Dylid ailedrych ar y mater hwn wedi i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei phapur ymgynghori yn yr haf. Gobeithir y caiff y Cynulliad fod yn rhan o unrhyw ymgynghori. Mae'r Fforwm yn gofyn am gofrestr Cymru Gyfan, tebyg i'r un a ddefnyddir gan Awdurdod Llundain. . Nid oes gan y gofrestr statws cyfreithiol ond fe allai helpu ag achosion neu anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â pherthynas/partneriaeth un-rhyw, er

enghraifft, o ran ymfudo neu drethi.

6. Cafodd y Fforwm ei annog gan y Pwyllgor i barhau i weithio gyda'r Cynulliad a llywodraeth leol i ddatblygu cofrestrau sifil un-rhyw a sut i drefnu eu bod ar gael i bobl ledled Cymru. Gallai cysylltiadau'r Fforwm â Stonewall, a ddatblygodd y cynllun yn Llundain, eu helpu yn hyn o beth.
7. Yn ôl y sôn, mae 90 y cant o gynlluniau pensiwn preifat yn darparu buddiannau i bartneriaid o'r un rhyw, ond dim ond 25 y cant o gynlluniau'r sector cyhoeddus sy'n gwneud. Mae cynllun pensiwn y Cynulliad yn cydnabod partneriaethau un-rhyw a dylai'r Cynulliad annog cyrff cyhoeddus eraill i fabwysiadu cynlluniau tebyg. Roedd y Fforwm yn siomedig bod cyn lleied wedi'i wneud yn y maes ond gobeithiai weld gwelliant yn y dyfodol. Nodwyd na fyddai'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd y cyfeirir ati ym mhapur y Pwyllgor yn arwain at fuddiannau cyfartal.
8. Nid oedd y Fforwm yn ffyddiog y byddai Ty'r Arglwyddi yn pasio'r cynnig i ddiddymu Adran 28 a byddai'n gofyn i Aelodau'r Cynulliad dros yr wythnos i ddod am help i gysylltu ag Arglwyddi Cymreig a allai fod o blaid y cynnig.
9. Mae'r Cynulliad i bob pwrpas wedi defnyddio'i bwerau i ddiddymu Adran 28 trwy gyhoeddi ei ganllaw 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion'. Os bydd ysgolion yn cadw ato, negyddir effeithiau Adran 28. Estynnodd Lorraine Barrett AC wahoddiad i'r aelodau nad oeddynt eisoes wedi arwyddo'i datganiad o farn ar y cylchlythyr Cymreig i wneud hynny.
10. Nid oes canllawiau wedi'u cyhoeddi gan yr Adran Iechyd ar sut i weithredu mesurau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sy'n caniatau i barau o'r un rhyw sy'n byw mewn perthynas deuluol sefydlog fabwysiadu plant. Mae'r Fforwm yn teimlo y dylid cadw golwg barcud ar y mater hwn.

**Pwynt Gweithredu:**

- Caiff papur arall ei gyflwyno i'r Pwyllgor olynol gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn esbonio'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad a'r Fforwm yn ei wneud o ran y materion a godwyd. Byddai'n cynnwys y rhesymau am y gwrthwynebiad i ganllaw newydd ABCh.

**<u>11.37 – 11.43</u>**

**Eitem 8**

**Papur: EOC-03-03(p8) – Ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol**

**Ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol**

1. Bu'r Pwyllgor yn trafod ei ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol ar gyfleoedd cyfartal i ddefnyddio'r drefn etholiadol.
2. Nodwyd bod y Gweinidog Llywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau wedi

cymeradwyo arian ar gyfer arolwg Polls Apart.

3. Dylai'r ymateb i Gwestiwn 3 gefnogi rhoi'r hawl i swyddog pleidleisio ddefnyddio unrhyw adeilad cyhoeddus neu gymunedol hygyrch fel gorsaf bleidleisio, ond fe ddylai'r gyfraith ganiatau eithriadau i hyn, er enghraifft rhag cau adeiladau cymunedol hanfodol.
4. Ni wnaeth yr ymateb i Gwestiwn 12 yr ymgynghoriad sôn dim am ddefnyddio Braille ar bleidleisiau post a dylid cynnwys hyn yn y fersiwn derfynol.
5. Dylai'r ymateb i Gwestiwn 13 gynnwys cyfeiriad at 'Cymraeg Clir' yn ogystal ag at 'Plain English'.
6. Roedd y Comisiwn Hawliau Anabledd yn hapus â'r ymateb ac â'r newyddion bod 'Polls Apart' am gynnal astudiaeth. Pwysodd ar aelodau i ddweud wrth eu hetholwyr wrth ganfasio.
7. Roedd yr aelodau'n fodlon bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hanfon gyda'r gwelliannau.

**<u>11.43 – 11.52</u>**

**Eitem 9**

**Adroddiad ar Waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ers Hydref 2002 a syniadau ar gyfer rhaglen waith y pwyllgor newydd**

**Papur: EOC 03-03(p9) - Crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor**

1. Gwahoddwyd y Pwyllgor i drafod a chytuno ar adroddiad ar ei weithgareddau ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, a chynnig rhai meysydd gwaith ar gyfer y Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd.
2. Ar y pwynt yma, gadawodd tri o aelodau'r Pwyllgor i fynd i adeilad y Pierhead i gymryd rhan mewn protest yn erbyn y rhyfel yn Irac, gan ddweud y byddent yn dychwelyd i'r cyfarfod am 12.15. Roedd yr aelodau a oedd ar ôl yn cydnabod yr hawl i brotestio, ond yn flin bod Aelodau wedi gadael cyn i rai o westeion y Pwyllgor wneud eu cyflwyniadau.
3. Nodwyd bod maes cyfle cyfartal yn un eang iawn a bod yn rhaid i'r Pwyllgor gadw cydbwysedd rhwng mynd i'r afael â'r holl faterion pwysig o ran cydraddoldeb a chanolbwyntio ar feysydd penodol. Dylai'r Pwyllgor newydd yn arbennig geisio ystyried sut y mae ei waith yn gorgyffwrdd â'r mater pwysig o statws economaidd-gymdeithasol a thlodi, gan fod perygl y gallai materion cyfle cyfartal yn gyffredinol gael eu gwahanu oddi wrth y nod sylfaenol o sicrhau tegwch cymdeithasol. Cytunodd y Pwyllgor y dylai ganolbwyntio'n fanylach yn y dyfodol ar agweddau penodol.

4. Dylai pwysigrwydd parhau â'r ymgyrch cyflog cyfartal gael ei bwysleisio yn rhestr waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol.
5. Dylid gwahodd Cadeiryddion pwyllgorau pwnc eraill i'r Pwyllgor i adrodd ar hynt gwaith.
6. Dywedodd y Comisiwn Hawliau Anabledd y dylai adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg Polls Apart, a gwerthusiad canol tymor o holl raglenni'r UE sydd ar waith yng Nghymru gael eu hychwanegu at y flaenraglen waith. Roedd wedi bod yn frwydr i ymgorffori targedau cydraddoldeb yn y rhaglenni hynny ac ni ddylid edrych arnynt fel rhwystrau i'w goresgyn er mwyn cael arian yr UE. Bydd cyfle i'r Pwyllgor ystyried y mater pan fydd canlyniadau'r arolwg canol tymor yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2003.
7. Cytunwyd ar y syniadau ar gyfer gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol a chytunwyd i ychwanegu'r pwyntiau uchod.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn newid y flaenraglen waith a gyflwynir i'r Pwyllgor newydd.

**11.52**

**Eitem 10**

**Papurau i'w nodi a chofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EOC-02-03(min) - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror**

**EOC 03-03(p10) - Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch canllawiau i ysgolion ar eu dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.**

**EOC 03-03(p11) - Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch penodiadau cyhoeddus i fyrddau iechyd lleol**

**EOC 03-03(p12) - Ymateb y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ymgynghoriad Llywodraeth y DU, 'Equality and Diversity - Making it happen'**

**EOC 03-03(p13) - Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU, 'Equality and Diversity - Making it happen'**

**EOC 03-03(p14) - Cynigion Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC) ar gyfer gwaith pellach ar benodiadau cyhoeddus**

**EOC 03-03(p15) - Y newyddion diweddaraf ynghylch rhoi 'Codi Pob Llais' ar waith**

**Llythyr oddi wrth Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau: at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ynghylch Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio.**

1. Nododd y Pwyllgor y papurau a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Gan gyfeirio at gyflwyniad Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn y cyfarfod diwethaf, nododd y Comisiwn Hawliau Anabledd fod Llywodraeth y DU newydd gydnabod Iaith Dwylo Prydain yn swyddogol ac y byddai goblygiadau cadarnhaol yn deillio o hyn. Croesawodd y Pwyllgor y datblygiad hwn.
3. Gan mai dyma gyfarfod olaf y tymor, byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu cymeradwyo gan yr aelodau drwy ohebiaeth.

**<u>11.53 – 12.11</u>**

**Eitem 11**

**Cyflwyniad ar 'Rights into Action 2003' Cyngres Ryngwladol o Bobl Ifanc Anabl**

1. Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu 'Rights into Action', Cyngres Ryngwladol sydd i'w chynnal gan ac ar gyfer pobl ifanc anabl yn Abertawe yng Ngorffennaf 2003.
2. Eglurodd Bob Mattingly, Gweinyddwr y Gyngres 'Rights into Action' bod y syniad wedi tyfu o sgwrs rhwng Kevin Fizpatrick o'r Comisiwn Hawliau Anabledd a Glenys Kinnock ASE. Roedd Kevin yn ymddiheuro nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod heddiw. Roeddynt am wahodd pobl ifanc anabl o bob cwr o'r byd gan ei bod hi'n Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl. Roedd bellach wedi tyfu'n achlysur bydeang gyda chynrychiolwyr yn dod o wledydd fel Armenia a Zaire - ar hyn o bryd mae dros 20 gwlad yn dod, ac mae mwy yn dangos diddordeb.
3. Dyma'r tro cyntaf erioed i ddigwyddiad fel hyn gael ei drefnu ar gyfer pobl ifanc anabl: cyngres sy'n para wythnos ac sy'n gyfle i'r bobl ifanc eu hunain rannu'u pryderon, safbwyntiau, arferion gorau ac i gynnig atebion i'r problemau y maent yn eu hwynebu.
4. Diolchwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ddarparu llawer o'r arian ac am neilltuo amser ei staff. Roedd y bobl ifanc eu hunain yn cymryd rhan fawr yn y gwaith o gynllunio'r digwyddiad.
5. Diolchodd y Gweinidog y bobl ifanc am fod yn amyneddgar wrth aros eu tro i wneud eu cyflwyniad i'r Pwyllgor ac ymddiheurodd am yr aelodau hynny a oedd wedi gadael y cyfarfod.
6. Roedd Rebecca Mason wedi cwrdd â phobl ifanc anabl eraill ledled Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi bod ar banel cyfweld y Gyngres. Roedd grwp wedi

cynllunio'r enw, y logo, y faner a'r areithiau ar gyfer yr achlysur lansio. Cynhaliwyd cyfarfodydd a gweithdai cynllunio. Roedd y cyfryngau eisoes wedi dangos ychydig o ddiddordeb. Roedd bod yn rhan o'r gwaith wedi ei helpu i ddatblygu agwedd gadarnhaol ac fe'i gwnaeth i deimlo'n fwy pwerus.

7. Roedd Richard Etherington yn rhan o fudiad o'r enw 'Young Voice, Young Choice' o Sir Benfro. Nododd y byddai cynrychiolwyr yn dod i'r Gyngres o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Kosovo, India a Romania. Roedd yn gobeithio y bydd yn gyfle i gyfnewid profiadau gwahanol ddiwylliannau ac y gallent drefnu ymweliadau â mannau diddorol lleol. Byddant yn cysylltu â'r cynrychiolwyr rhyngwladol cyn y gyngres ac roedd yn gobeithio y byddai'r cysylltiad yn parhau ymhell wedi'r gyngres hefyd. Bydd gweithdai'n cael eu cynnal yn ystod y Gyngres gan 'Dynamix' ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc anabl. Ar ddiwrnod ola'r cyfarfod byddant yn gallu mynegi'u barn a'u pryderon wrth bobl ddylanwadol o wahanol wledydd, un ai yn bersonol neu drwy gyfleusterau fideo gynadledda. Roedd pobl ifanc wedi cymryd rhan fawr yn y gwaith cynllunio ac roeddent yn gobeithio y byddai'u pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.
8. Dywedodd Lee Ellery eu bod am weld y gwaith yn cario ymlaen ar ôl y Gyngres drwy gynnal cyfarfodydd rhag i'r fenter fynd yn angof. Roedd rôl bwysig gan bawb a oedd yn rhan o'r gwaith ac roeddent am weld rhwydwaith rhyngwladol o fudiadau'n datblygu o ganlyniad i'r gyngres. Roedd hi'n bwysig bod gwleidyddion fel Glenys Kinnock, a oedd wedi helpu i roi'r prosiect ar waith, yn clywed beth sydd gan bobl ifanc i'w ddweud.
9. Diolchodd y Cadeirydd y cyflwynwyr ac fe'i sicrhaodd y byddai'r Pwyllgor yn cymryd eu pryderon o ddifrif. Hoffai'r aelodau iddynt ddychwelyd a rhoi adborth iddynt ar y Gyngres, y materion a gafodd eu codi a sut y gellid mynd i'r afael â'r materion hynny wedi'r Gyngres. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at flaenraglen waith y Pwyllgor newydd.
10. Roedd y rhai a oedd yn cynllunio'r Gyngres yn datblygu gwefan er mwyn rhannu gwybodaeth â chynrychiolwyr tramor ac roeddent yn gobeithio y byddai'n help i ddatblygu rhywdwaith rhyngwladol.
11. Roedd y Fforwm LHD wedi cynnig helpu'r Gyngres mewn unrhyw ffordd y gallai, p'un ai drwy ddarparu llythyr i gefnogi'r Gyngres neu drwy fod yn bresennol. Roedd gweinyddwyr y Gyngres yn croesawu cefnogaeth mudiadau eraill hefyd.
12. Cyn cynnal sesiwn preifat nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod ola'r tymor a chyfarfod olaf sesiwn cyntaf y Cynulliad. Diolchodd Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, swyddogion yr Uned Polisi Cydraddoldeb, y gwesteion sefydlog y Gweinidogion a'r cadeiryddion blaenorol a oedd wedi bod yn rhan o'r Pwyllgor. Diolchodd yr Aelodau y Cadeirydd gan ddweud eu bod yn gobeithio fod gwaith y Pwyllgor hyd yn hyn wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer y tymor nesaf.

**Pwynt Gweithredu:**

- Bydd y gwaith o gael adborth ar Gyngres 'Rights into Action' yn cael ei ychwanegu at

flaenraglen waith y Pwyllgor newydd.

**<u>12.11 – 12.15</u>**

**Eitem 12**

**SESIWN PREIFAT**

**Ystyried adroddiad ar hynt yr Adolygiad Sipsiwn-Deithwyr**

**Papur: EOC 03-03(p17)**

1. Penderfynodd y pwyllgor gynnal sesiwn preifat ar gyfer gweddill y cyfarfod er mwyn iddo ystyried ei adroddiad drafft, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

   "Gall Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

   *(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson."*

2. Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad a bydd fersiwn electronig yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad cyn diwedd y sesiwn. Bydd fersiwn dwyieithog yn cael ei gyhoeddi ar ôl yr etholiadau ar 1 Mai. Nododd aelodau'r Pwyllgor fod y pedair plaid wleidyddol wedi cytuno na fyddai'r ddogfen yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben gwleidyddol cyn iddi gael ei hystyried gan y Cynulliad newydd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.**